


# NAWEN

## o'r Dyrchafael i'r Pentecost

Esgob Anthony Poggo

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL Y CYMUNDEB ANGLICANAIDD

DELED DY DEYRNAS

# NAWEN

Deled Dy Deyrnas: Nawen
(Awdur: Esgob Anthony Poggo)
Hawlfraint © 2024 Deled Dy Deyrnas.
Defnyddiwyd gyda chaniatâd.  Cedwir pob hawl yn fyd-eang.

Cymerir testun y Beibl a ddefnyddir yn yr argraffiad hwn o fersiwn beibl.net.
Hawlfraint © Gobaith i Gymru 2015; yr argraffiad hwn © 2015 Cymdeithas y Beibl.
Defnyddiwyd gyda chaniatâd. Cedwir pob hawl yn fyd-eang.

Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r lluniau.

DELED DY DEYRNAS

# NAWEN

Esgob Anthony Poggo

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL Y CYMUNDEB ANGLICANAIDD

# CYFLWYNIAD

'*Tyrd, Ysbryd Glân.*' Mae'r weddi syml, angerddol hon wrth wraidd calon *Deled Dy Deyrnas*. Mae'r don fyd-eang hon o weddi, sydd wedi lledaenu dros 172 o wledydd ledled y byd, wedi'i gwreiddio yn arferion a phrofiad yr eglwys gynharaf wrth iddyn nhw ufuddhau i orchymyn Iesu i aros am dywalltiad rhodd yr Ysbryd Glân.

Dywed Actau 1:14 wrthon ni y gwreiddiwyd eu cynllun cenhadu mewn gweddi gyson, chwyldroadol:

> *Roedden nhw'n cyfarfod yno'n gyson i weddïo gyda'i gilydd, gyda Mair mam Iesu, a'i frodyr, a nifer o wragedd.*

Fe anwyd cymuned newydd ym marwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu. Fe roddwyd un gorchwyl iddyn nhw: i fod yn dystion i Grist trwy'r byd i gyd. Fe fyddai'r Pentecost yn dangos nad oedd, yng nghynllun achubiaeth Duw, yr un rhwystr iaith na diwylliant i fod; rhaid i bawb glywed Newyddion Da maddeuant a bywyd tragwyddol yn eu hiaith eu hunain, mewn tafodiaith y bydden nhw'n ei deall. Nid fod yn rhaid iddyn nhw ddysgu iaith yr eglwys; ond, trwy rym yr Ysbryd Glân, fod yr eglwys wedi'i hanfon i ddysgu rhannu Crist mewn geiriau y byddai'r byd yn eu deall.

Mae i natur ryngwladol *Deled Dy Deyrnas* le arbennig yn y Nawen eleni. Rydyn ni mor ddiolchgar i'r Esgob Anthony Poggo, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cymundeb Anglicanaidd, am ymgymryd â her awdur y flwyddyn hon. Bydd ei dreftadaeth Affricanaidd gyfoethog, ynghyd â'r ffaith ei fod yn teimlo mor gartrefol ar bob cyfandir, yn gymorth i bawb ohonon ni i weddïo *'Tyrd, Ysbryd Glân'* lle bynnag yn y byd y'n gosodwyd ni gan Dduw.

Eleni, rydyn ni'n canolbwyntio ar benodau cyntaf Datguddiad ar gyfer ein hastudiaethau dyddiol. Mae gan y byd cythryblus rydyn ni'n byw ynddo gymaint yn gyffredin â lleoliad llyfr olaf y Beibl. Roedd trais, gorthrymder, camdrin merched a phlant yn rhan annatod o fywyd yn yr Ymerodraeth Rufeinig, fel ag

y maen nhw ledled y byd heddiw. Fe gyflwynwn y byd a greodd Duw ato yn ein gweddïau ac yna ffocysu'r gri honno yn fwy personol wrth i bob un ohonon ni feddwl am bum person rydyn ni'n eu nabod sydd ddim eto'n dilyn yr Arglwydd Iesu Grist. Gweddïwn y down nhw i fwynhau'r tangnefedd, y cariad a'r bywyd tragwyddol sydd i'w cael yn unigryw ynddo Fe.

Mae Cristnogion yn aml wedi tynnu'u sylw i ffwrdd o gyflawni'r Comisiwn Mawr trwy ganolbwyntio ar bethau rydyn ni'n anghydweld â nhw ymysg ein gilydd. Ein gobaith ydy y bydd *Deled Dy Deyrnas* eleni yn ein clymu'n un yng ngwirionedd Newyddion Da Iesu Grist a'r dasg o ddwyn y newyddion hwnnw at yr holl fyd.

Gobeithio y gwnewch chi ymuno â ni wrth inni weddïo *'Tyrd, Ysbryd Glân.'*

*Archesgob Caergaint, Justin Welby*
*Archesgob Caer Efrog, Stephen Cottrell*

1

2

3

4

5

# DYDD DYRCHAFAEL

## Iesu ydy'r Arglwydd

Datguddiad 1:4-5

*Dwi i'n gweddïo y byddwch yn profi haelioni rhyfeddol a heddwch dwfn Duw, yr Un sydd, ac oedd ac sy'n mynd i ddod; gan yr Ysbryd cyflawn perffaith sydd o flaen yr orsedd; a hefyd gan y Meseia Iesu, y tyst ffyddlon, y cyntaf i gael ei eni i fywyd newydd ar ôl marw, a'r un sydd ag awdurdod dros holl frenhinoedd y ddaear.*

'A *oes rhywun yna?'*
Does neb yn ateb y ffôn.
Does yna ddim ymateb i'r cnoc ar y drws.
Does neb yn ateb y neges destun.
Mae'r drymiau'n curo ond does neb yn dod.

*'Oes 'na rywun yna?'* Mewn byd lle gwelir cymaint o ddicter a thrais, erledigaeth ac anghyfiawnder, ymwahanu ac unigrwydd, lle, mewn sawl man, mae merched a gwragedd yn cael eu cam-drin, a phlant yn cael eu gwneud yn amddifad neu eu cam-drin, mae hi'n naturiol iawn, pan ddaw hi at weddi, i ofyn y cwestiwn, 'Oes 'na rywun yna?'

Y ffaith yw nad ydy effaith dinistriol drygioni wedi newid fawr ddim ers i Ioan, yn ystod ei alltudiaeth ar Ynys Patmos, yng ngwlad Groeg, brofi'r gweledigaethau a welwn ni yn Llyfr y Datguddiad. Terfysgwyr sydd wedi disodli byddinoedd Rhufain; ond mae'r cyrchoedd ar bentrefi, yr herwgipio, y lladd a'r dinistr yn debyg iawn. Efallai i'r arfau newid, mae erchyllterau drygioni'n aros yr un peth.

Felly, daw'r geiriau hyn aton ni, fel ag y daethon nhw at y Cristnogion yn nhalaith Asia (Twrci fodern heddiw). Maen nhw'n eiriau, nid yn unig gan Apostol alltud, ond sy'n tarddu o orsedd Nef! Ac mae 'na newyddion da.

Y *mae* rhywun yno!

Dyna ydy sicrwydd mawr adnodau heddiw. Roedd rhai o'r Cristnogion y bu Ioan



*Gwasanaeth Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd, Ghana*

yn sgwennu atyn nhw yn gwybod yn iawn beth oedd profi erledigaeth, carchar, a'r rhagolygon gwirioneddol o farw dros eu ffydd yn Iesu. Roedd temtasiwn i roi'r gorau iddi gan fod bod yn Gristion yn ymddangos yn beth mor ddiarth yn niwylliant yr oes.

Mae'r Un sydd, yn wir, yno: Duw Hollalluog, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, yn llefaru geiriau i'w bobl, geiriau o ras a thangnefedd, anogaeth a her, cysur a chywirdeb. Dyma'r union un Iesu sydd byth yn newid, '...Iesu y Meseia, yr un fath bob amser – ddoe, heddiw ac am byth!' (Hebreaid 13:8).

Mae dihareb yn Affrica sy'n mynd fel hyn, 'Dim ond meiddio dwyn ŵy'r iâr mae eryr, does gan cenau'r llew ddim achos pryderu'. Hynny ydy, does dim angen i Iew bach boeni, gan fod yr eryr yn ofni ei dad. Wrth inni gofio pwy ydyn ni 'yng Nghrist', mae hyder yn disodli ofn.

Wrth i Ioan weld 'y nefoedd yn llydan ar agor', y darlun calonogol ydy mai Duw sy'n ein hannerch, y Duw a'n gwnaeth ni a phopeth arall, yr Arglwydd a rannodd ein bywyd, a fu farw yn ein lle ac a atgyfododd yn fuddugoliaethus dros farwolaeth, yr Ysbryd Glân a addawodd Iesu i bawb a gredai ynddo Fe.

---

**Dros gwrs y dyddiau nesaf, meddyliwch am bump o bobl sydd ar eich calon ac y gallwch chi fod yn gweddïo drostyn nhw wrth inni deithio gyda'n gilydd. Wrth inni weddïo dros ein pum person heddiw, rydyn ni'n eu hebrwng at y Duw anhygoel hwn sy'n eu nabod ac yn eu caru. Yn Ei gariad ac yn Ei ewyllys, mae tangnefedd tragwyddol.**

---

# Y DUW SY'N CARU

## Datguddiad 1:5-6

*Mae'n ein caru ni, ac mae wedi marw droson ni i'n gollwng ni'n rhydd fel bod pechod ddim yn ein rheoli ni ddim mwy. Mae'n teyrnasu droson ni ac wedi'n gwneud ni i gyd yn offeiriaid sy'n gwasanaethu Duw, ei Dad! Fe sy'n haeddu pob anrhydedd a nerth, am byth! Amen!*

Mae llyfr darluniau Datguddiad yn llawn heriau inni ynghylch y ffordd rydyn ni i fyw i Iesu mewn byd amherffaith iawn. Gall rhai o'r darluniau fod yn frawychus a dychrynllyd iawn. Y gwir bendigedig ydy fod y gair hwn i ni yn dechrau trwy osod yr Arglwydd Iesu Grist o'n blaenau ac mae'r gwirionedd yn tawelu ein calonnau a'n meddyliau: 'Mae'n ein caru ni, ac mae wedi marw droson ni i'n gollwng ni'n rhydd fel bod pechod ddim yn ein rheoli ni ddim mwy.' Dyna ichi gyfuniad rhyfeddol – cariad a rhyddid. Yn unigol, cawn ein caru, fel y dywedodd un pregethwr: 'Fel 'tae neb arall i'w garu.'

Mae hi'n hawdd teimlo'n bitw a dibwys yn ein byd heddiw. Mae holl broblemau'r argyfwng hinsawdd, newyn, rhyfeloedd, chwalu teuluoedd – gyda'r rhan fwyaf yn ymddangos fel 'taen nhw'n effeithio ar y tlawd yn fwy na dim – yn ymddangos yn enfawr ac yn llethol.

Sut mae'n bosib i Dduw ein caru'n unigol? Wel, mae E.

Mae'r Beibl yn ategu'r gwirionedd hwn dro ar ôl tro; ond, os ydy hi'n haws ichi gofio straeon, yna meddyliwch am y wraig yn yr Efengylau a oedd eisiau cael ei hiachau a'r oll a wnaeth hi oedd cyffwrdd gwisg Iesu. Do, yn wir fe gafodd ei hiachau; ond dyma Iesu, a oedd ar ei ffordd i helpu merch fach, yn atal y dorf a sicrhau fod y wraig, nid yn unig yn cael ei hiachau yn gorfforol, ond yn symud at ffydd achubol yn arwain at fywyd tragwyddol (Marc 5:24-34). Er gwaetha'r holl ofynion arno, roedd gan Iesu yr amser i oedi a rhoi sylw i'r wraig hon. Pa mor barod ydyn ni i ateb galwad Duw i weinidogaethu i eraill, er gwaethaf prysurdeb ein bywydau?

Mae rhai diwylliannau'n neilltuo parch mawr at bobl hŷn ond prin ydy'r sylw a roddir i anghenion yr ifanc. Mae eraill yn buddsoddi mewn cyfleoedd i bobl ifanc

tra'n tanseilio a dibrisio'r rhai hynny a roddodd gymaint trwy gydol eu bywydau ond sydd, bellach, angen cymorth a chefnogaeth. Mae Duw'n ein caru waeth beth ydy'n hoed, cefndir, cenedligrwydd, ethnigrwydd, rhywedd, addysg, swydd, cyfoeth, neu statws. 'Cariad ydy Duw' ydy un o'r sylfeini gorau a mwyaf syml inni edrych ar Dduw, y byd, a ni'n hunain.

Wrth gwrs, mor hawdd ydy hi i falu geiriau sy'n rhad a diystyr ar adegau. Dywed dihareb o Senegal: 'Efallai Ei fod yn dweud ei fod yn dy garu; arhoswch a gweld beth wneith E drosoch chi.' Dyna pam fod y geiriau sy'n dilyn sicrwydd cariad Duw mor nerthol: 'mae wedi marw droson ni i'n gollwng ni'n rhydd fel bod pechod ddim yn ein rheoli ni ddim mwy'. Fe gollodd Ei waed droson ni. Mae lliw gwaed dynol yr un peth waeth beth fo lliw ein croen a'n tras. Mae'r gwaed a gollwyd ar y groes yn gynhwysol, yn hollgynhwysol, ac yn dynodi grym gwaith achubol Crist dros bob un o bobl Dduw, waeth beth fo'u lliw na'u tras.

Ar ddiwedd Llyfr y Datguddiad, mynegir cariad Duw tuag aton ni fel unigolion tra gwerthfawr, a wnaed ar Ei lun a'i ddelw ei hun, ac a waredwyd ac a brynwyd trwy farwolaeth ac atfgyfodiad Crist, mewn ffordd bersonol ac agos-atoch iawn. Darllenwn: 'Bydd yn sychu pob deigryn o'u llygaid nhw.' I rywun allu sychu ein dagrau, mae'n rhaid inni adael iddyn nhw ddod yn ddigon agos.

---

**Wrth ichi weddïo dros eich pum person heddiw, daliwch nhw ym mhresenoldeb Duw, a gofynnwch, beth bynnag fo'r heriau sy'n eu hwynebu, y gwnawn nhw ganiatáu i'r Arglwydd glosio'n ddigon agos i'w alluogi i gyflawni'r hyn y gall yntau, a neb arall, ei gyflawni ynddyn nhw.**



*Esgobaeth Barisal, Bangladesh*

# Y DUW SY'N LLEFARU

## Datguddiad 1:10-11

*Roedd hi'n ddydd Sul, ac roeddwn i dan ddylanwad yr Ysbryd Glân. Yn sydyn clywais lais y tu ôl i mi, fel sŵn utgorn. Dyma ddwedodd: "Ysgrifenna beth weli di mewn sgrôl, a'i anfon at y saith eglwys...'*

O'r corn trwmped Ugandaidd a elwir yn eng'ombe, trwy'r trwmpedi mawr pres yn y gorymdeithiau priodasol yn yr India at drwmped croeso'r Maori, y Pūkāea, lle bynnag a phryd bynnag y'u cenir, mae trwmpedi'n hawlio ein sylw. Mewn diwylliannau eraill, gan gynnwys pobl y Dinka yn Ne Swdan, drymiau sy'n chwarae rôl debyg. Nid hawdd eu diystyru na'u hosgoi. Efallai mai seinio rhybudd y maen nhw, dathlu digwyddiad hirddisgwyliedig, cyhoeddi croeso, neu'n alwad i baratoi at frwydr; ond dydyn nhw ddim, ar unrhyw gyfrif, i gael eu hanwybyddu.

Mae heddwch addoliad Ioan ar y Saboth, yn alltud ar Patmos, wedi'i ddatgysylltu oddi wrth ei gyfeillion a theulu'r eglwys, ac yn siwr o fod yn pendroni pa weinidogaeth posib a all ei chyflawni yma, yn cael ei chwalu'n ddisymwth gan y sŵn mwyaf bendigedig; sŵn gwerthfawr llais gogoneddus yr Arglwydd Iesu. Mae'r Iesu hwnnw, a oedd yn achubwr ac yn gyfaill gorau iddo, yn cysuro'r apostol fod ei waith ymhell o fod wedi dod i ben; mae gweinidogaeth newydd i'w chyflawni.

Ffrwyth ei wrando ydy Llyfr y Datguddiad, sy'n datgan yn ei hadnodau agoriadol, 'Bydd y person sy'n darllen y neges broffwydol hon i'r eglwys yn cael ei fendithio'n fawr. A hefyd pawb sy'n gwrando ar y neges yn cael ei darllen, ac yna'n gwneud beth mae'n ei ddweud.' Mewn rhai rhannau o'r byd, mae hynny'n beth gwirioneddol wrthddiwylliannol. Fel mae nodyn yn y Beibl Astudio Affricanaidd yn ei ddweud: 'Mewn llawer man, mae Cristnogion yn cael eu dirmygu, a'r Beibl yn cael ei ddilorni.'

Mae trwmped y Beibl, yr hyn a alwodd merthyr y Diwygiad Protestannaidd, yr Esgob Cranmer, 'Gair Duw'n ysgrifenedig', byth yn peidio â seinio. Ond er nad



*Cynhadledd Adnewyddiad, Esgobaeth Trinidad a Tobago*

oes modd ei ddistewi, fe fedrwn ninnau beidio â gwrando. Mae hi mor hawdd canfod fod neilltuo amser pob dydd i ddarllen y Beibl ac i ofyn i'r Ysbryd Glân ei gymhwyso i'n bywydau, yn cael ei wthio o'r neilltu gan yr holl bethau eraill sy'n cymryd ein bryd. Mae'r rhain yn aml yn bethau da ynddyn nhw'u hunain – chwaraeon, gweithgareddau'r plant, treulio amser gyda ffrindiau, a'r oriau sydd angen i lawer ohonon ni'u gweithio er mwyn cynnal cyllideb y teulu – ond ni ddylid caniatáu iddyn nhw ddisodli gair Duw.

Mewn rhai diwylliannau, mae'r byd o'n cwmpas am inni gymryd cyllell finiog at yr Ysgrythur, gan dorri allan y darnau nad ydy e'n eu hoffi: y rhannau hynny sy'n herio ein hunanoldeb a'n pechod. Er enghraifft, lle bo diwylliant yn annog dial ac hefyd y syniad yma o 'llygad am lygad neu dant am ddant', mae gofyn inni addysgu fod gair Duw'n dweud na ddylen ni dalu'r pwyth yn ôl ond, yn hytrach, ei adael i ddigofaint Duw, gan Ei fod yn dweud 'Fi sy'n dial; gwna i dalu yn ôl' (Rhufeiniaid 12:19). Y realaeth ynghylch ddialedd ydy ei fod yn magu cylch dieflig o ddialedd. Dyfynnir Mahatma Gandhi yn datgan fel hyn, 'Mae llygad am lygad yn arwain at fyd sy'n gwbl ddall'.

---

**Wrth inni weddïo am ein pum cyfaill heddiw, gweddïwch y bydden nhw, a ninnau hefyd, yn clywed gair Duw inni yn glir ac yn bendant. Fel y dywedodd yr Archesgob Cranmer, 'Pa beth bynnag a geir yn hon, rhaid ei dderbyn fel y sail sicraf ac fel gwirionedd anffaeledig.'**

---

# Y DUW SY'N CREU

Datguddiad 1:8

*'Fi ydy'r Alffa a'r Omega', meddai'r Arglwydd Dduw, yr Un sydd, oedd, ac sy'n mynd i ddod eto, yr Un Hollalluog.*

Mae'r un adnod fer hon ar ddechrau llyfr olaf y Beibl yn dweud cymaint am ein Duw. Dyma'r Duw a wnaeth bopeth, a ddatguddiodd Ei hun, ac sy'n ein hachub trwy'r Arglwydd Iesu Grist ac yn preswylio, trwy Ei Ysbryd Glân, ym mywydau pawb sy'n gosod eu ffydd yn Iesu.

Ysgrifennwyd y Testament Newydd yn yr iaith Roeg. Mae llythrennau cyntaf ac olaf yr wyddor Roeg, Alffa ac Omega, a ddefnyddir yma fel disgrifiad o Dduw, yn tawelu meddyliau a chalonnau'r Cristnogion sydd dan ormes Rhufain fod Duw, beth bynnag a ddigwydd, mewn rheolaeth a'u bod yn ddiogel trwy gydol amser a hyd tragwyddoldeb.

Os meddyliwn ni'n ôl at lyfr cyntaf y Beibl, Genesis, llyfr y dechreuadau, fe gawn ddarlun o Dduw yn creu popeth, gan gynnwys bodau dynol, a wnaed ar lun a delw Duw ei hun. Mae'n ymddiried i'w gofal yr ardd a greodd. Mae cael ein hatgoffa mai'r Hollalluog Un ydy ein Duw ni yn gryn ysgytwad ar brydiau. Mor rhwydd ydy hi i'n ffydd ddatblygu'n ddim byd mwy nag un goeden gyffredin yng nghanol coedwig ein bywydau, yn hytrach na bod y Duw Sanctaidd, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, yn dod yn garreg sylfaen, ein grym cynhaliol, ein cartrefol tragwyddol.

Mae Duw wrth ei fodd yn creu, ac yn ail-greu pan aiff pethau o chwith. Pan ddigwydd hyn, pan fo'n pechod yn difetha ac yn creithio'r byd, ein perthynas â'n gilydd a'n perthynas â Duw, mae ganddo eisoes gynllun achubiaeth parod. Mae'n gynllun a fyddai'n arwain at groeshoeliad, at atgyfodiad a gogoniant Nefoedd i'r rhai hynny sy'n rhoi eu cred yn Ei fab, Iesu Grist.



*Swyddfa’r Cymundeb Anglicanaidd*

Dywed dihareb Affricanaidd fel hyn: ‘Os ydych chi am eistedd dan gysgod yn eich henaint, plannwch goeden nawr.’ Mae’r Duw Hollalluog, sydd am inni dreulio amser yn Ei gwmni yng nghysgod y nefoedd a’r ddaear newydd a greodd, wedi plannu coeden ar ffurf croes Iesu. Trwy Ei Ysbryd Glân, ni yw Ei greadigaeth newydd, a’i ddyhead ydy fod pawb yn rhannu yn hynny.

Mae dyhead cymaint o bobl ledled y byd ein dyddiau ni i ofalu am ein byd yn un mynegiant o’r hyn mae’n ei olygu i fod wedi eich llunio ar lun a delw Duw. Rydyn ni’n dyheu am fod yn arddwyr, hyd yn oed os nad ydyn ni’n ymwybodol o bwy ydy Arglwydd yr ardd, nac yn Ei nabod.

---

**Wrth inni ddyrchafu ein pum person o flaen yr Arglwydd heddiw, rhowch ddiolch i Dduw amdanyn nhw, gan weddïo y bydd eu dyhead nhw a ninnau i ofalu am greadigaeth Duw, yn ein harwain i nabod a charu’r Un a’i creodd.**

---

# Y DUW SY'N RHOI

## Datguddiad 3:7-8

*Dyma mae'r Un sanctaidd, yr Un gwir, yn ei ddweud. Mae allwedd teyrnas Dafydd ganddo, a does neb yn gallu cloi beth mae wedi'i agor, nac agor beth mae wedi'i gloi: 'Dw i'n gwybod am bopeth rwyt ti'n ei wneud. Edrych, dw i wedi agor drws i ti – drws fydd neb yn gallu ei gau.'*

'Rhodd am ddim!' ydy un o addewidion mawr hysbysebu. Hyd yn oed os nad ydy e'n rhywbeth sydd ei angen neu ei eisiau arnoch, mae'r syniad ei fod yn rhad ac am ddim, yn aml yn dynfa atyniadol. Trwy gydol hanes, mae llawer wedi addo ffafr Duw, dim ond i'r addolwyr wneud aberthau penodol ymgymryd â gweithredoedd neilltuol neu deithio i fannau 'sanctaidd' dewisol.

Mae'r Newyddion Da Cristnogol yn gyfangwbl ac yn fendigedig o wahanol. Mae un o hoff adnodau'r Beibl cyfan, sef Efengyl Ioan 3:16, yn datgan, 'Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' Mae Duw yn rhoi ac yn rhoi drachefn. Os ydyn ni'n Gristnogion, rydyn ni wedi derbyn y rhodd fwyaf yn y byd... ac mae'n rhad ac am ddim. Rhoddwyd inni fywyd tragwyddol yn Iesu Grist, a dydyn ni ddim wedi gwneud unrhyw beth o gwbl i'w hennill na'i haeddu. Cawn orffwys; cawn ymlacio yn y gwirionedd mai nid trwy'r hyn a wnaethon ni y cawson ni hon, ond trwy beth mae Duw wedi'i wneud.

Mae adnod heddiw o'r Datguddiad yn ran o'r neges at yr eglwys yn ninas Philadelphia, yn Nhwrci fodern. Roedd hon yn ganolfan bwysig i fasnach yr oes, lle'r oedd prynu a gwerthu wrth wraidd bywyd bob dydd. Sgwennai Iesu atyn nhw yn cynnig rhodd rad arall. Mae'n eu sicrhau y caen nhw orffwys yn Ei gymeriad. Nid ei fwriad ydy rhoi rhywbeth iddyn nhw a fydd yn eu niweidio ond, yn hytrach, rhodd a fydd yn tyfu a datblygu'r eglwys...

Mae'n cynnig drws agored iddyn nhw!



*Digwyddiad Deled Dy Deyrnas Tairieithog, Colombo, Sri Lanka*

Onid ydy hynny'n ymddangos yn rodd braidd yn od? Efallai y basen well ganddyn nhw fod wedi derbyn mwy o atebion i weddi, mwy o ddoniau'r ysbryd, ymdeimlad agosach o'i bresenoldeb, neu llond trol o bethau eraill. Yr hyn maen nhw'n cael cynnig ydy gwahoddiad i rannu Crist Ei hun gyda'u ffrindiau, eu diwylliant, eu dinas.

Deled Dy Deyrnas, yn syml, ydy gweddïo 'Tyrd, Ysbryd Glân' ar fywydau pobl rydyn ni'n eu nabod, efallai dim ond pump o bobl, fel eu bod hwythau'n dod i wybod am gariad achubol Duw yn yr Arglwydd Iesu Grist. Dywed Crist wrthon ni Ei fod wedi agor y drws, yr hyn sy'n rhaid i ninnau ei wneud ydy camu trwyddo.

Pryd bynnag y byddwn yn siarad neu'n gweithredu gyda chariad Duw yn ein calonnau tuag at y rhai hynny sydd o'n cwmpas, yna rydyn ni'n camu trwy'r drws y mae Iesu'n ei ddal yn agored inni.

Weithiau fe deimlwn na fydd ein hymdrechion yn gwneud fawr o wahaniaeth, os o gwbl. Mae dihareb Affricanaidd doniol i'w gael a all beri inni ailystyried hynny: 'Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n rhy fach, ceisiwch dreulio noson yng nghmwni mosgito.' Daw'r ddihareb hon yn fyw iawn imi yr wythnos hon, wrth lunio'r darn hwn yn Juba, De Swdan, yng nghwmni mosgitos dirifedi.

---

**Wrth ichi barhau i weddïo dros eich pum cyfaill, gofynnwch i Dduw agor mwy o ddrysau ichi gael rhannu Ei air gyda phobl eraill, er mwyn iddyn nhwythau hefyd ddod i adnabyddiaeth bersonol o'r Arglwydd Iesu Grist.**

---

# Y DUW SY'N CYDGERDDED Â NI

## Datguddiad 1:12-16

*Dyma fi'n troi i edrych pwy oedd yn siarad â mi, a dyma beth welais i: saith canhwyllbren aur. Yn eu plith roedd "un oedd yn edrych fel person dynol." Roedd yn gwisgo mantell hir oedd yn cyrraedd at ei draed a sash aur wedi'i rwymo am ei frest. Roedd ganddo lond pen o wallt oedd yn wyn fel gwlân neu eira, ac roedd sbarc yn ei lygaid fel fflamau o dân. Roedd ei draed yn gloywi fel efydd mewn ffwrnais, a'i lais fel sŵn rhaeadrau o ddŵr. Yn ei law dde roedd yn dal saith seren, ac roedd cleddyf miniog yn dod allan o'i geg. Roedd ei wyneb yn disgleirio'n llachar fel yr haul ganol dydd.*

'Ai ti yw e, go iawn?' Dyna'r math o beth y gallen ni fod wedi dweud wrth gwrdd â rhywun na welson ni mohonyn nhw ers 'talwm. Maen nhw'n edrych yn wahanol rywsut. Maen nhw'n gwisgo dillad gwahanol, efallai wedi colli (neu ennill) pwysau, o bosib wedi newid steil (neu golli) eu gwallt, ond mae yna rywbeth cyfarwydd amdanyn nhw sy'n ein gwneud ni'n sicr mai nhw sydd yna.

Fodd bynnag, i Ioan, doedd ganddo fod ddim amheuaeth mai Iesu oedd yn siarad ag e, yr un sydd wedi torri i mewn i'w alltudiaeth, ei atgofion, ei unigrwydd, ei ffydd, ei obaith. Mae cymaint sy'n wahanol yn y ffigwr gogoneddus, anhygoel hwn a welai. Mae delweddau o'r Hen Destament yn dod i'w gof wrth i'r person hwn ddod i'r golwg.

Fe fyddai'r fantell hir a'r gwregys aur o amgylch ei fron yn dwyn i gof wisg yr Archoffeiriad ac yn cyfeirio at Iesu fel yr un a fu farw ar ein rhan ar y Gwener Groglith cyntaf hwnnw, ac sydd yn wir Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.

Mae'r gwallt gwyn a'r fflamau tân yn dod o'r darlun o'r Duw Hollalluog yn Daniel, pennod 7. Does dim amheuaeth fod yr un sy'n llefaru yn gwneud hynny gyda chymeriad ac awdurdod Arglwydd pob peth. Wrth gwrs, mae iaith Daniel 7 wedi bod yno ers dechrau darlleniad heddiw yn yr ymadrodd 'un oedd yn edrych fel person dynol'. Fe welai Ioan Arglwydd buddugoliaethus yr Hen Destament sydd



*Plant mewn Ysgol Anglicanaidd yn Fiji*

hefyd yn gyfaill gorau iddo o'r Efengylau. Roedd Iesu'n aml yn cyfeirio ato'i hun fel 'Mab y Dyn'.

Dychmygwch: rydych chi'n edrych o'ch cwmpas wrth glywed llais Duw ac yn canfod eich ffrind gorau yn edrych arnoch. Ffrind a gerddodd gyda chi ar hyd glannau Môr Galilea a thrwy strydoedd Jerwsalem. Ffrind a wyddai sut i fwynhau parti ym mhentref Cana ac un a welodd Ei gyfeillion oll yn ffoi mewn braw a llwfrdra o ardd Gethsemane. Mae gan y ffrind yma draed 'yn gloywi fel efydd mewn ffwrnais'. Mae'r ymadrodd yn cyfleu dynoliaeth Iesu fel ag y mae gweddill y darlun yn cyfeirio at Ei dduwioldeb.

Yr un ydy'r cyfaill hwn i Ioan sydd am fod yn gyfaill gorau i ninnau hefyd. Mae yntau hefyd yn cynnig cydgerdded â ni. Ie, hwn, Mab Duw, a anwyd mewn stabl, a ddihangodd fel ffoadur, a wnaeth Ei fywoliaeth fel saer coed; yr un a garodd y gwahanglwyf, a swperodd gyda'r casglwr trethi, a ddaeth yn gyfaill i weithwraig rhyw ac a fwydodd y newynog.

Yr union un Iesu hwn sy'n parhau heddiw i estyn inni law cyfeillgarwch.

---

**Gweddïwch y daw eich pum person i wybod mwy am yr Iesu sy'n deall o ddifrif yr hyn mae'n ei olygu i gerdded yn ein sgidiau.**

---

# Y DUW SY'N GWRANDO

## Datguddiad 2:9

*'Dw i'n gwybod dy fod ti'n dioddef, a dy fod yn dlawd (er, rwyt ti'n gyfoethog go iawn!).'*

Mae hi'n beth hyfryd pan fo plentyn yn adrodd ei jôc gyntaf wrthoch chi. Efallai iddyn nhw ei chlywed hi yn yr ysgol a'u bod wedi bod yn ei ymarfer drosodd a throsodd yn eu meddyliau cyn cyrraedd adref er mwyn cael ei hadrodd wrth weddill y teulu! Maen nhw'n chwerthin bob tro maen nhw'n ei hadrodd. Mae'r teulu'n chwerthin hefyd... hyd yn oed os ydy hi'n un a glywyd droeon o'r blaen. Dydy'r ffaith eu bod eisoes yn gyfarwydd â'r stori ddim yn eu hatal rhag gwrando'n astud a'i dderbyn fel 'tae hynny oedd y tro cyntaf. Mater o berthynas ydy hi.

Pan fyddwn yn gweddïo, p'un ai droston ni'n hunain, ein ffrindiau neu'r materion mawr o bwys i holl wledydd y byd – newyn, rhyfel, newid hinsawdd, neu dlodi – dydyn ni ddim yn dweud unrhyw beth wrth yr Arglwydd nad ydy E eisoes yn gwybod. Fydd dim byd yn syndod nac yn newydd iddo, ond mae'n mwynhau'r berthynas gymaint a thrwy'r sgwrsio a'r tawelwch, fe ganfyddwn ein meddyliau, ein calonnau a'n hewyllys fwyfwy mewn tiwn â chariad a chynllun Duw.

Felly oedd hi i'r eglwys yn Smyrna yn ein hadnod heddiw. Roedden nhw'n byw mewn dinas hyfryd, ond roedd harddwch y ddinas yn ddim mwy na chefndir i eilunaddoliaeth ac erledigaeth Cristnogion. Efallai mai ffurfiau gwahanol sydd ar ddelwau ein dyddiau ni – syniadau gwleidyddol, barn a statws 'selebs' ein dydd, pwysedd grwpiau cyfoedion – ond mae erlid Cristnogion yn fwy cyffredin heddiw nag a fu ar unrhyw gyfnod mewn hanes.

Felly, pan fyddwn ninnau'n rhannu ein trafferthion gyda'r Arglwydd, rhannu ydyn ni yr un math o bwysedd, methiannau ac ofnau â'n brodyr a'n chwiorydd dros y canrifoedd ac ar draws y byd.

Yr hyn a ganfyddwn ydy bod yr Arglwydd yn ein hatgoffa o'r cyfoeth sydd yn ein meddiant.

Nid ym meddiant byddinoedd, arweinwyr na gwleidyddion y mae'r grym eithaf i'w gael; yn hytrach, mae'n gorwedd yn nwylo cariadus ein Tad nefol, sy'n gwybod popeth sydd i'w wybod amdanon ni ac a fydd, os ydyn ni'n credu yn Iesu, yn ein tywys yn ddiogel trwy bopeth sydd gan y byd hwn i'w daflu aton ni, cyn ein croesawu â'i freichiau tragwyddol i mewn i ogoniant nef am byth bythoedd.

Roedd hynny'n wir i'r Cristnogion hynny yn Smyrna ddwy fil o flynyddoedd yn ôl ac mae hi'r un mor wir i ninnau nawr. Yn ogystal â gweddïo dros eich pum person heddiw, daliwch o flaen Duw y rhai hynny sydd yn dioddef o ddifri dros eu ffydd yn Iesu, yr union rai y cawn eu cwrdd yn y gogoniant rhyw ddydd. Cofiwch fod Duw'n deall yr hyn maen nhw wedi'i ddioddef, a dewch inni barhau i sefyll ar y sicrwydd hwnnw Ei fod hefyd yn ymwybodol o bopeth sy'n mynd ymlaen yn ein bywydau ninnau. Mae'r Arglwydd yn clywed ein gweddïau, ac mae'n eu hateb nhw i gyd gydag 'ie', 'na' neu 'aros'.

Pan adroddwn iddo ein amheuon a pha mor ymwybodol ydyn ni'n o'n pechod, mae'n ein hatgoffa mai Iesu ydy'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, a bod Ei faddeuant yn rhad ac am ddim ac yn llawn. Pan ddeudwn wrtho pa mor ddinerth, ddi-rym rydyn ni'n teimlo, cawn ein hatgoffa ganddo am nerth deinamig yr Ysbryd Glân.

**Pan gyflwynwn ein pum cyfaill iddo, gan ddatgan nad ydyn ni'n gwybod yn iawn sut i rannu Iesu gyda nhw, mae'n ein hatgoffa Ei fod wedi addo rhoi'r geiriau inni ac nad oes pregeth well na bywyd sy'n dilyn ac yn debyg i Grist.**



*Esgob Rutana a'i wraig yn Esgobaeth Rutana, Burundi*

# Y DUW SY'N ACHUB

Datguddiad 1:17-18

> *Pan welais e, dyma fi'n llewygu wrth ei draed. Yna cyffyrddodd fi â'i law dde, a dweud wrtho i: 'Paid bod ag ofn. Fi ydy'r Cyntaf a'r Olaf, yr Un Byw. Rôn i wedi marw, ond edrych! – dw i'n fyw am byth bythoedd! Gen i mae allweddi Marwolaeth a Byd y Meirw.'*

Adroddir stori am ddau lôwr yn Ne Affrica. Roedd un yn Gristion a'r llall yn anffyddiwr. Wrth iddyn nhw gloddio gwythïen gyfoethog o lo gyda'i gilydd, daeth y to yn rhydd gan daro'r glôwr o anffyddiwr ar ei helmed. Gan ofni y byddai'r holl do yn dymchwel, galwodd allan, 'O Dduw, helpa fi!'. Trodd ei gyfaill arall o Gristion ato gyda gwên, gan ddatgan, 'Dyna ni, ddwedais i wrthot ti, does dim byd tebyg i dalpiau mawr o lo am gnocio anffyddiaeth allan o ddyn!'

Daw adegau yn ein bywydau sy'n gwneud inni oedi a meddwl am gwestiynau mawr bywyd. Beth ydy ystyr hyn i gyd? A ydy Duw'n real? A oes nefoedd mewn gwirionedd ac, os oes yna, a fedra i fod yn siwr fy mod I'n mynd yno? Roedd gweledigaeth Ioan o Iesu Grist yn y gogoniant yn ddigon i roi ysgytwad iddo, ei gyffroi a'i adfywio ar yr un pryd.

Ei ymateb cyntaf ydy 'llewygu wrth ei draed' fel tae'n farw. Mae'n union fel ymateb Eseia, a adroddwyd ganddo yn Eseia 6: '"Gwae fi! Mae hi ar ben arna i! Dyn gyda gwefusau aflan ydw i."'

Ymateb naturiol a chywir dynoliaeth yn wyneb presenoldeb ein Harglwydd sanctaidd a gogoneddus ydy sylweddoli Ei fod E yn sanctaidd ac nad ydyn ni.

Roedd bywyd yr Arglwydd Iesu'n berffaith. Darllenwn yr Efengylau ac fe wyddon ni'n iawn bod yr un rydyn ni'n ei gyfarfod yno yn fendigedig ac yn chwyldroadol o wahanol i unrhyw un arall. Dyma ichi fywyd fel ag y dylai gael ei fyw.



*Cynrychiolwyr yng Nghynhadledd Lambeth*

Dydy sylweddoli ein bod yr hyn mae'r Beibl yn ei alw'n bechaduriaid, y rhai hynny sy'n disgyn yn fyr o safonau Duw, ddim wedi'i fwriadu fel diagnosis terfynol digalon o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn ddynol; yn hytrach, cam hanfodol ydy hyn at y sylweddoliad fod gan Dduw gynllun achubiaeth... ac enw'r cynllun hwnnw oedd Iesu; mae'n gwneud cynnig ac yn rhoi'r cyfle inni dderbyn Ei gynllun achub E.

I Eseia yn yr Hen Destament ac Ioan yn y Testament Newydd, ymateb Duw i'n hanghenion ydy maddeuant rhad a llawn. Yn Eseia, ceir symbol y talpyn iasboeth o lo ac i Ioan, llaw iachaol yr Arglwydd Iesu'n sy'n ei gyffwrdd a'i wella. Mae'n siwr eich bod yn cofio stori'r Mab Afradlon. Tra'r oedd yn ymdrybaeddu mewn twlc mochyn, bu'n llunio ac yn ymarfer anerchiad bach twt, ymddiheuriadol; ond wrth gyrraedd, beth welodd e ond ei dad yn rhedeg tuag ato gyda mantell, modrwy, sandalau, a chroeso mawr i barti cyn iddo gael cyfle i agor ei geg.

Mae hen ddihareb Affricanaidd sy'n dweud fel hyn, 'Pwy bynnag sy'n maddau, sy'n ennill!' Yr Arglwydd Iesu, hyd yn oed yn ei wewyr ar y groes, yn gweddïo dros y milwyr oedd yn Ei groeshoelio, ydy'r enillydd mawr a phan wnawn ni Ei dderbyn fel Arglwydd ar ein bywydau, fe gawn rannu yn Ei fuddugoliaeth.

---

**Gweddïwch dros y rhai rydych chi'n eu dal yn arbennig o flaen Duw, y down nhw i brofi'r llawenydd o gael eu croesawu i wledd tragwyddol Duw a chael gorffwys yng nghyffyrddiad maddeuol Iesu.**

---

# Y DUW SY'N HERIO

Datguddiad 2:4-5

*Iond mae gen i rywbeth yn dy erbyn di: Ti ddim yn fy ngharu i fel roeddet ti ar y cychwyn. Edrych mor bell rwyt ti wedi syrthio! Tro yn ôl ata i eto, a gwna beth roeddet ti'n ei wneud ar y cychwyn. Os ddoi di ddim yn ôl ata i, dof fi atat ti a chymryd dy ganhwyllbren di i ffwrdd.*

Mae'n ddigon posib mai llythyr yr Arglwydd at yr eglwys yn Effesus oedd yr un fwyaf poenus i Ioan orfod ei sgwennu. Dyma oedd ei eglwys e. Mae'n sgwennu adref, ac er bod Iesu'n canmol purdeb athrawiaethol yr Eglwys a'i gallu i weithio'n galed i rannu'r Newyddion Da, mae yna un her ddeifiol. Oni bai bod yr eglwys yn ailddarganfod gwir gariad Cristnogol tuag at yr Arglwydd ac at ei gilydd, yna fe fyddai hyd yn oed ei bodolaeth dan fygythiad.

Dydy'r cariad fu'n bodoli ac yn weithredol flynyddoedd yn ôl o ddim gwerth ar gyfer heddiw.

Os ydy cariad tuag at Dduw wedi ei ddisodli gan ddim byd mwy nag arfer, ac os ydy'r cariad tuag at gyd-aelodau'r eglwys wedi ildio i fiwrocratiaeth a chyfarfodydd pwyllgorau diddiwedd, yna mae'r tân wedi' ddiffodd. Y peryg ydy ein bod yn datblygu'n gragen wag heb sylwedd na sylfaen oddi mewn.

Dyma sut y mae'r Beibl Astudio Affricanaidd yn ei gosod hi: 'Does 'na neb yn hoffi bwyta hen fwyd a does dim iws darllen papurau newydd ugain mlwydd oed. Yr hyn rydyn ni ei angen ydy bwyd ffres a newyddion cyfredol. Peidiwn felly â rhoi i Dduw gariad sy'n hen ac yn oer. Dewch inni edifarhau am unrhyw ffugio neu smalio yn yr eglwys.' Does ryfedd felly fod llythyrau Ioan yn llawn anogaeth i garu'n gilydd yn y gymuned Gristnogol. Mae'r traddodiad, y byddai Ioan yn ei henaint yn parhau i annog credinwyr, 'Blant bychain, cerwch eich gilydd', yn gwneud synnwyr llwyr yng ngoleuni adnod heddiw.



*Gwragedd yn gweddïo yn Esgobaeth Barisal, Bangladesh*

Mae Iesu wedi herio, yn ogystal ag annog, yr eglwys. Pan fo'r Beibl yn rhoi her inni: rhywbeth i'w newid, rhywbeth i weithio arno, rhywbeth ynon ni sydd ddim fel ag y dylai fod, digon hawdd ydy datgan, 'Dwi'n dda i ddim, does gen i mo'r nerth i wneud unrhyw beth am hynny. Dwi wedi trïo ac wedi methu lawer gwaith.' Nid dyna mae Duw ei eisiau. Dyna pam y rhoddodd inni rym rhyfeddol yr Ysbryd Glân er mwyn iddo Yntau gyflawni'r hyn na allwn ni.

Petai'r Arglwydd Iesu yn sgwennu llythyr atoch chi a fi, beth fyddai'n ei sgwennu er mwyn ein hannog? Pa drawsnewidiad, trwy Ei ras, sydd eisoes wedi digwydd? Yn ein gweddïau heddiw, dewch inni ofyn iddo ddangos inni, trwy gariad heriol, y meysydd hynny o fywyd lle mae Yntau am weld mwy o newid, ac yna gofyn am rym yr Ysbryd Glân i wneud y newidiadau hynny'n bosib.

Pan fo artist yn peintio portread, ychwanegai at y braslun neu'r amlinelliad cyntaf liwiau hardd a strôcs brwsh cain a chelfydd nes daw'r darlun yn glir. Ni sydd i fod yn ddelwedd, yn ddarlun o Grist i'r byd, felly gweddïwn i'r artist dwyfol beintio Ei debygrwydd ynon ni. Mae geiriau'r hen emyn Saesneg, *Keep Me Shining, Lord*, yn fodd i'n hatgoffa i fyw mewn ffordd y gall pobl weld Crist ynon ni a thrwyddon ni: *'keep me shining Lord, keep me shining Lord, in all I say or do; that the world may see Christ lives in me, and learn to love Him too.'*

---

**Gweddïwch y bydd ein pum person yn gweld yr Arglwydd Iesu ym mywydau Ei bobl.**

---

# Y DUW SY'N GALLUOGI

Datguddiad 3:20-22

*'Edrych! Dw i yma! Dw i'n sefyll wrth y drws ac yn curo. Os bydd rhywun yn fy nghlywed i'n galw ac yn dod i agor y drws, dof i mewn i rannu pryd o fwyd gyda nhw.*

*Bydd pawb sy'n ennill y frwydr yn cael hawl i deyrnasu gyda mi ar fy ngorsedd, yn union fel wnes i ennill y frwydr, a theyrnasu gyda fy Nhad ar ei orsedd e. Gwrandwch yn ofalus ar beth mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwysi.'*

Onid ydy'r adnodau hyn yn hyfryd? Mae'r rhain ymysg yr adnodau mwyaf gwerthfawr yn y Testament Newydd i gymaint o Gristnogion ledled y byd. Mae un o'r peintiadau enwocaf o Grist gan yr artist Fictoraidd, William Holman Hunt, yn dangos Iesu'n curo ar ddrws heb ddolen ar y tu allan, nad oes modd ei agor ond o'r tu fewn. Dywedodd ei fod wedi'i beintio, '...gyda'r hyn ro'n i'n meddwl oedd yn orchymyn dwyfol, ac nid testun da yn unig.'

Yn yr adnodau hyn, mae'r Arglwydd Iesu Grist yn sgwennu at y Cristnogion yn Laodicea a oedd yn ystyried eu hunain yn gyfoethog yn ysbrydol, yn well nag eraill, ac heb angen am ddim. Fe'u gwahoddodd i sylweddoli eu bod yn 'dlawd, yn ddall ac yn noeth'; ac i agor drws eu heglwys a drysau eu calonnau, fel y gallai Crist eu gwneud nhw'n bopeth y bwriadwyd iddyn nhw fod.

Roedd Laodicea'n adnabyddus am ei defnydd cain, ei meddyginiaeth ar gyfer y llygaid a'i chyfoeth; fodd bynnag, dydyn ni ddim wedi'n galw i ganolbwyntio ar bethau materol. Fe'n galwyd i fod yn debyg i'r Arglwydd Iesu. Dydyn ni byth i gael ein diffinio'n unig yn ôl ein cenedligrwydd, ein cyfoeth na'n tlodi, ein haddysg na'n galwedigaeth ond trwy fod, i ddyfynnu un o ymadroddion Sant Paul, 'yng Nghrist.'

Dydy gwahodd Crist i rannu ein bywyd ddim yn unig yn benderfyniad o dröedigaeth, er ei fod yn 'gyfnewidiad mawr' a welir trwy ddarlun clir symboliaeth bedydd. Mae'n hanfod dyddiol, waeth pa mor hir y buon ni'n Gristion.

Ceir dihareb arall yn Affrica sy'n dweud yn blaen, 'Dydy canŵ byth yn rhy fawr i suddo.' Mae yna adegau lle mae'n amlwg mai ein balchder, ein penderfynolrwydd i fod yn ddynion a merched hunanddyrchafedig, sy'n rwystr inni ddod yn fwy tebyg i'r Arglwydd Iesu. Dydyn ni byth yn rhy fawr, yn rhy hen, yn rhy aeddfed, yn rhy ddoeth, yn rhy bwysig i fod angen ein cynnal gan Grist.

---

**Gweddïwch y bydd eich pum person hefyd yn meddu ar y gostyngeiddrwydd i glywed Crist yn curo ac yn galw wrth ddrws eu bywydau, ac agor y drws hwnnw i groesawu Iesu wrth iddo Yntau aros i'w croesawu nhw.**

**Fel y disgyblion ar y ffordd honno i Emaus yn Luc 24, fe ganfyddwn ni, pan agorwn ninnau'r drws i Grist, bod yr Un sy'n cael ei wahodd yn troi'n wahoddwr. Peidiwn â 'stopio'r arfer o roi croeso i bobl ddieithr yn eich cartrefi – mae rhai pobl wedi croesawu angylion i'w cartrefi heb yn wybod.' (Hebreaid 13:2).**



*Y Tra Pharchedig Bob Key gydag Arweinwyr o Dde Corea*

# PENTECOST

## 'Tyrd, Ysbryd Glân'

### Datguddiad 3:22

*'Gwrandwch yn ofalus ar beth mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwysi.'*

Dywed dihareb yn Affrica fel hyn, 'Gwrando ydy'r sgil anoddaf i'w ddysgu a'r un pwysicaf i'w feddu.' Ar ddiwedd pob un o'r llythyrau at y saith eglwys ar ddechrau Llyfr y Datguddiad, fe ddarllenwn, 'Gwrandwch yn ofalus ar beth mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwysi.' Mae'r neges i bob eglwys yn wahanol ond y gorchymyn taer i wrando a deall beth mae'r Ysbryd yn ei ddweud yr un mor bwysig i bob un.

Rydyn ni wedi gweddïo dros ein pum person, a gerir gan Dduw. Rydyn ni wedi gweddïo 'Tyrd, Ysbryd Glân' dros ein heglwysi a ni'n hunain, trwy gydol y cyfnod hwn o *Deled Dy Deyrnas*. Gan fod dydd Pentecost bellach yma, mae hi'n amser da i ofyn, 'Beth mae'r Ysbryd Glân am imi'i glywed, i ddeall, i ddal yn fy nghalon ac i weithredu arno?'

Pan yr ysgrifennodd yr Arglwydd Iesu y Datguddiad hwnnw at yr eglwysi trwy law Ioan, fe ysgrifennodd gyda gwybodaeth berffaith o'r sefyllfa: gobeithion, ofnau, breuddwydion, heriau, beiau a methiannau pob eglwys a phob crediniwr. Mae'r llythyrau'n deillio o gariad sanctaidd sy'n dyheu i'r Cristnogion hynny fod ag ymwybyddiaeth o gysur mewn adfyd, sicrwydd mewn cyfleoedd a nerth mewn gwendid.

Mae'r Arglwydd yn dyheu i'r eglwysi, fel ag y mae'n dyheu i ni, fod yr hyn oll y bwriadwyd inni fod, popeth y gallwn fod trwy nerth yr Ysbryd Glân.

Ar ddiwrnod cyntaf y Pentecost, a ddisgrifir gan Luc yn ail bennod yr Actau, fe gafodd y disgyblion a fu, fel ninnau, yn gweddïo ers diwrnod esgyniad Iesu, lawer



*Gwasanaeth Eglwys yng Nghadeirlan Sant Ioan, Hong Kong*

mwy nag y gwnaethon nhw fyth ei ddychmygu. Fe'u gyrrwyd, dan ddylanwad grym gwynt yr Ysbryd Glân, allan i strydoedd Jerwsalem i rannu'r Newyddion Da am farwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu. Dechreuodd dân yr Ysbryd eu trawsnewid oddi fewn, gan rannu doniau newydd iddyn nhw a'u galluogi i gyflawni pethau newydd a gorchfygu hen demtasiynau. Roedd yr ieithoedd a roddwyd gan yr Ysbryd yn arwydd fod Iesu i'r holl fyd.

Mae angen ieithoedd gwahanol ar ein byd heddiw i'r rhai hynny a lefarwyd adeg y Pentecost cyntaf hwnnw. Bellach, mae anghenion newydd, diwylliannau newydd, cenedlaethau newydd i'w cyrraedd, ond dydy Efengyl Iesu byth yn newid. Fe fu farw unwaith dros bechodau. Fe atgyfododd unwaith eto. Fe ddaw eto, yn Arglwydd a barnwr.

Fel y disgyblion cyntaf, rydyn ni'n byw yn y bwlch rhwng copaon mynyddoedd dyfodiad cyntaf ac ailddyfodiad Crist. Rydyn ni'n byw gyda'r gorchymyn hwnnw'n atseinio yn ein clustiau, 'Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi' (Mathew 28:19). Awn ymlaen gyda'r sicrwydd y bydd yr hyn mae'r Arglwydd yn ei orchymyn yn Ei air yn cael ei alluogi trwy Ei Ysbryd. Fe wnawn hyn trwy cael ein hatgoffa am y dywediad sy'n dweud ein bod yn rhannu gair Duw yn nerth yr Ysbryd Glân ac yn gadael y canlyniadau i Dduw.

**'Arglwydd, rho gymorth i'r pum person dwi wedi'u dewis i glywed Dy alwad, ymateb i Dy gariad a derbyn yr Arglwydd Iesu. Amen'**



thykingdomcome.global